



HM Inspectorate
of Probation

Arolygiad o wasanaethau cyfiawnder ieuencid yng

Nghwm Taf

Arolygiaeth Prawf EF, Awst 2024

Cynnwys

Rhagair	3
Sgoriau	4
Argymhellion	5
Cefndir	6
Parth un: Darpariaeth sefydliadol	7
1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth	7
1.2. Staff	9
1.3. Partneriaethau a gwasanaethau	11
1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau	13
Parth dau: Datrysiaidau yn y llys	18
2.1. Asesiad	18
2.2. Cynllunio	19
2.3. Gweithredu a chyflawni	20
2.4. Adolygu	21
Parth tri: Datrysiaidau y tu allan i'r llys	22
3.1. Asesiad	22
3.2. Cynllunio	23
3.3. Gweithredu a chyflawni	24
3.4. Polisi a darpariaeth ar gyfer delio ag achosion y tu allan i'r llys	25
4.1. Adsefydlu	27
4.1. Y polisi a'r ddarpariaeth adsefydlu	27
Rhagor o wybodaeth	29

Cydnabyddiaethau

Arweiniwyd yr arolygiad hwn gan Arolygydd EF Caren Jones, gyda chefnogaeth tîm o arolygwyr a chydweithwyr o bob rhan o'r arolygiaeth. Hoffem ddiolch i bawb a helpodd i gynllunio a chymryd rhan yn yr arolygiad; ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl heb eu cymorth a'u cydweithrediad.

Rôl Arolygiaeth Prawf EF

Arolygiaeth Prawf EF yw arolygydd annibynnol gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuencid yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn adrodd ar effeithiolrwydd gwaith gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuencid gydag oedolion a phlant.

Rydym yn arolygu'r gwasanaethau hyn ac yn cyhoeddi adroddiadau arolygu. Rydym yn tynnu sylw at arferion da a gwael, ac yn defnyddio ein data a'n gwybodaeth i annog gwasanaethau o ansawdd uchel. Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth ac yn siarad yn annibynnol.

Cofiwch fod yr enwau yn yr enghreifftiau a roddir gydol yr adroddiad hwn wedi cael eu newid er mwyn diogelu pwy yw'r unigolion dan sylw.

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch neges e-bost at psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf EF
Llawr 1af Canolfan Llysoedd Sifil
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter [@hmiprobation](https://twitter.com/hmiprobation)

ISBN: 978-1-916621-48-0

© **Hawlfraint y Goron 2024**

Rhagair

Mae'r arolygiad hwn yn rhan o'n rhaglen o arolygiadau o'r gwasanaeth troseddau ieuenctid (GCI). Rydym wedi arolygu a sgorio GCI Cwm Taf mewn tri maes eang: y trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn sefydliadol, ansawdd y gwaith a wneir gyda phlant sy'n cael eu dedfrydu gan y llysoedd, ac ansawdd gwaith datrysiadau y tu allan i'r llys.

Yn gyffredinol, mae GCI Cwm Taf yn cael sgôr 'Da'. Bu i ni hefyd arolygu ansawdd y ddarpariaeth a'r polisi ailsefydlu, a oedd yn cael ei ystyried yn 'Dda' ar wahân.

Mae GCI Cwm Taf wedi gwreiddio dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar drawma ar draws pob agwedd ar ei waith gyda phlant a'u rhieni neu ofalwyr. Mae ymarferwyr yn adnabod eu plant yn dda ac yn cymryd amser i ddeall eu profiadau bywyd a'u hanghenion unigol. Mae tîm arweinyddiaeth y GCI yn ymroddedig ac yn wybodus. Mae staff a gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn ddiogel wrth wneud eu gwaith. Yn weithredol, mae yna gynnydd partneriaeth cydlynol, gyda'r GCI yn elwa o drefniadau secondio a chomisiynu gyda'r heddlu, y gwasanaeth prawf a darparwyr gofal iechyd. Gwelsom hefyd sawl enghraifft o gydweithio arbennig gyda gwasanaethau plant. Fodd bynnag, mae angen i'r bartneriaeth gyfrannu at ei dull strategol wrth ddatblygu'r ymyriadau a'r gwasanaethau mwyaf effeithiol i blant, gan gynnwys gwella'r ffordd y mae'n casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth a datblygu gwell dealltwriaeth o anghymesuredd a gorgynrychiolaeth yng ngharfan y GCI. Mae gan y GCI gynnydd ataliol cryf, ac mae gan bob plentyn fynediad cyfartal at wasanaethau.

Ar gyfer gwaith ar ôl y llys ac arferion adsefydlu, gwelsom arferion cyson o ansawdd uchel o ran asesu, cynllunio a darparu gwasanaethau, yn enwedig mewn perthynas ag ymataliad plant. Fodd bynnag, mae angen gwella ansawdd gweithgareddau asesu a chynllunio datrysiadau y tu allan i'r llys, gan roi mwy o ffocws ar ddiogelwch y plentyn, a phobl eraill. Gallai adolygu fformat panel penderfynu'r ganolfan helpu i wella gwaith datrysiadau y tu allan i'r llys.

Mae egwyddorion rhoi plant yn gyntaf yn rhan annatod o arferion y GCI. Fodd bynnag, ni chafodd hyn ei ailadrodd ar draws y bartneriaeth strategol, gan arwain at ymateb tameidiog a gwrthgyferbyniol i fynd i'r afael ag ymddygiad plant. Mae angen i fwrdd rheoli'r GCI, sydd wedi cael ei ailsefydlu'n ddiweddar, sicrhau bod yr holl bartneriaid, o bob rhan o'r ddau awdurdod lleol, yn bwrw ymlaen â'r dysgu o'r cynnydd mewn remandio, dedfrydau carchar tymor byr, a'r defnydd o orchmynion ymddygiad troseddol, ac yn defnyddio hyn yn rhagweithiol i sicrhau bod gwaith effeithiol yn cael ei gyflawni gyda phlant. Rhaid i fwrdd rheoli'r GCI hefyd weithio gyda fforymau strategol eraill i flaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu fframwaith sy'n ymwneud â cham-fanteisio ar blant a hynny ar frys, i sicrhau bod yr holl wasanaethau'n nodi, yn sgrinio ac yn ymateb yn gyson i ddangosyddion cam-fanteisio ar blant a niwed y tu allan i'r teulu. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y diffyg dadansoddiad o'r niferoedd uchel o blant y GCI sydd ddim mewn ysgolion prif ffrwd, yn cael eu haddysgu fel arall, neu ar amserlenni rhan amser.

Roedd bwrdd rheoli'r GCI yn fyfyrion ac yn awyddus i ddatblygu ei gyfrifoldebau llywodraethu. Rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn, a'i argymhellion, yn cefnogi'r bwrdd rheoli a'r GCI i fwrw ymlaen â'r gwelliannau angenrheidiol i ddarpariaeth gwasanaethau i blant.



Martin Jones CBE

Prif Arolygydd Prawf EF

Sgoriau

Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Cwm Taf
Dechreuodd y gwaith maes ym mis Ebrill 2024

Sgôr

19/36

Sgôr gyffredinol

Da



1. Darpariaeth sefydliadol

1.1 Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Angen gwella



1.2 Staff

Da



1.3 Partneriaethau a gwasanaethau

Angen gwella



1.4 Gwybodaeth a chyfleusterau

Da



2. Datrysiadau yn y llys

2.1 Asesiad

Da



2.2 Cynllunio

Rhagorol



2.3 Gweithredu a chyflawni

Rhagorol



2.4 Adolygu

Da



3. Datrysiadau y tu allan i'r llys

3.1 Asesiad

Annigonol



3.2 Cynllunio

Annigonol



3.3 Gweithredu a chyflawni

Da



3.4 Polisi a darpariaeth ar gyfer delio ag achosion y tu allan i'r llys

Angen gwella



4. Ailsefydlu¹

4.1 Y polisi a'r ddarpariaeth adsefydlu

Da



¹ Nid yw'r sgôr ar gyfer Ailsefydlu yn dylanwadu ar sgôr gyffredinol y GCI.

Argymhellion

O ganlyniad i ganfyddiadau ein harolygiad, rydym wedi gwneud naw o argymhellion y credwn, os cânt eu gweithredu, y byddant yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd gwasanaethau troseddau ieuenctid yng Nghwm Taf. Bydd hyn yn gwella bywydau'r plant sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, ac yn diogelu'r cyhoedd yn well.

Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wneud y canlynol:

1. adolygu'r prosesau sicrhau ansawdd ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, gan sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn cael eu cefnogi i nodi a dadansoddi ffactorau sy'n effeithio ar ddiogelwch y plentyn a diogelwch pobl eraill
2. adolygu fformat panel gwneud penderfyniadau'r ganolfan er mwyn iddo gael y mewnbwn perthnasol, gan yr asiantaethau a'r gweithwyr proffesiynol angenrheidiol, i sicrhau bod y datrysiad y tu allan i'r llys yn diwallu anghenion y plentyn
3. cofnodi lleisiau plant a'u rhieni neu'u gofalwyr yn gyson i lywio'r gwaith o adolygu'r polisïau, y prosesau a'r ddarpariaeth.

Dylai Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Cwm Taf:

4. sicrhau bod partneriaid strategol yn datblygu fframwaith cam-fanteisio, adnodd sgrinio, a chyd-ddealltwriaeth o brosesau'r Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol a hynny ar frys
5. llywio'r dull partneriaeth o ddysgu o ddigwyddiadau sy'n arwain at gynnydd mewn remandio, dedfrydau byr o garchar, a'r defnydd o orchmynion ymddygiad troseddol
6. sicrhau bod dulliau cyson o bennu pa mor addas yw gorchmynion ymddygiad troseddol ar draws awdurdodau lleol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf
7. gwella'r gwaith o ddadansoddi gwybodaeth am bartneriaethau a data'r GCI, i werthuso sut mae'r gwasanaeth yn diwallu anghenion plant, gan ganolbwyntio'n benodol ar orgynrychiolaeth, anghymesuredd, a nifer uchel o blant y GCI sydd ddim mewn addysg prif ffrwd nac yn destun amserlenni rhan amser
8. ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros osod, datblygu ac adolygu gweledigaeth a strategaeth y GCI
9. datblygu cysylltiad â thîm y GCI a chyda phlant a rhieni neu ofalwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Cefndir

Fe wnaethom y gwaith maes yng Ngwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid (GCI) Cwm Taf dros gyfnod o wythnos, gan ddechrau ar 29 Ebrill 2024. Fe wnaethom archwilio achosion lle dechreuodd y ddedfryd neu'r drwydded, lle cyflawnwyd datrysiadau y tu allan i'r llys, a lle dedfrydwyd neu lle rhyddhawyd achosion ailsefydlu rhwng 01 Mai 2023 a 23 Chwefror 2024. Fe wnaethom hefyd gynnal 26 cyfweiliad gyda rheolwyr achosion neu eu rheolwyr llinell.

Cafodd Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Cwm Taf ei ffurfio yn 2014 ar ôl uno Gwasanaethau Troseddau Ieuencid ym Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Rhwng 2017 a mis Mawrth 2023, roedd trefniadau llywodraethu'r GTI wedi cael eu darparu gan y Bwrdd Rheoli Troseddwyr, grŵp partneriaeth strategol sy'n canolbwyntio ar blant ac oedolion sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol. Ym mis Mawrth 2023, arweiniodd digwyddiad ymgynghori at gytundeb y byddai Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Cwm Taf yn cael ei ailfrandio fel GCI, a chafodd bwrdd rheoli penodol ei ailsefydlu ar gyfer y GCI .

Mae gan Ferthyr Tudful boblogaeth o 58,800 ac mae gan RhCT boblogaeth fwy, sef 237,700. Merthyr a RhCT, yn y drefn honno, yw'r wythfed a'r nawfed awdurdod lleol mwyaf dwys eu poblogaeth yng Nghymru. Mae Cyfrifiad 2021 yn nodi bod 12 y cant o boblogaeth RhCT a naw y cant o boblogaeth Merthyr Tudful yn siaradwyr Cymraeg. Mae gan GCI Cwm Taf nifer o ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg, a gall plant gael gafael ar wasanaethau yn eu dewis iaith. Gwelodd yr arolygwyr fod gan blant fynediad cyfartal at wasanaethau ar draws y ddau awdurdod lleol.

Mae awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf yn cynnal y GCI ac mae cysylltiadau strategol a gweithredol ar bob lefel gydag awdurdod lleol Merthyr Tudful. Mae GCI Cwm Taf yn rhan o adran Gwasanaethau Plant Rhondda Cynon Taf. Mae'n cael ei arwain gan y pennaeth gwasanaeth, sy'n adrodd i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant. Mae ganddi dîm yn y gogledd, sy'n gwasanaethu Merthyr Tudful, a thîm yn y de, sy'n gwasanaethu RhCT. Yn ymarferol, gwelom fod y timau'n gweithio fel un, gyda'r pedwar rheolwr tîm a'r ymarferwyr yn darparu gwasanaethau ataliol, y tu allan i'r llys, statudol ac ailsefydlu i blant ar y cyd. Yn unol â Glasbrint Cyfiawnder Ieuencid Cymru, mae GCI Cwm Taf yn darparu cynnig ataliol cryf i blant sydd mewn perygl ddod i gysylltiad â'r system gyfiawnder.

Adeg ein harolygiad, darparodd y GCI ddata yn nodi nad yw 93 y cant o'u plant yn mynychu ysgolion prif ffrwd, mewn addysg amgen, neu ar amserlenni rhan-amser. Mae diffyg fframwaith cam-fanteisio, ac adnodd sgrinio y cytunwyd arno, yn gwaethygu'r pryder nad yw absenoldebau o'r ysgol yn cael eu hystyried yn rheolaidd gan ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â niwed y tu allan i'r teulu.

Ers mis Ionawr 2022, mae niferoedd remandio a chystodaeth y GCI wedi bod yn cynyddu. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan y GCI yn amlinellu bod wyth o blant wedi cael eu remandio i'r ddalfa ac un i ofal yr awdurdod lleol rhwng mis Chwefror 2023 a mis Chwefror 2024. Dedfrydwyd wyth o blant i'r ddalfa, gyda chwech o'r plant hyn yn cael eu dedfrydu i wyth mis neu lai. Mae niferoedd remandio a chystodaeth uwch yn cael eu priodoli i grŵp penodol o blant, gyda nifer o'r garfan hon yn destun gorchmynion ymddygiad troseddol. Mae bwrdd rheoli'r GCI yn cydnabod bod angen ffurfioli'r gwaith o ddadansoddi a dysgu mewn partneriaeth, er mwyn sicrhau bod dull partneriaeth strategol y cytunwyd arno ar gyfer delio â digwyddiadau yn y dyfodol.

Adeg cyhoeddi'r arolygiad, cyfradd aildroseddu'r GCI oedd 41.9 y cant, o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 32.2 y cant. Roedd nifer y rhai oedd yn ymuno am y tro cyntaf wedi cynyddu i 141 am bob 100,000 o bobl ifanc rhwng 10 ac 17 oed yn y boblogaeth. Mae'r GCI wedi cynnal dadansoddiad manwl o'r rhai oedd yn ymuno am y tro cyntaf, gan arwain at ddatblygu cynnig atal a dargyfeirio cyffredinol wedi'i dargedu i blant.

Parth un: Darpariaeth sefydliadol

Er mwyn arolygu'r ddarpariaeth sefydliadol, buom yn adolygu'r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynodd y GCI ymlaen llaw, a chynaliasom 14 o gyfarfodydd, gan gynnwys gyda staff, gwirfoddolwyr, rheolwyr, aelodau'r bwrdd, a staff y bartneriaeth a'u rheolwyr.

Roedd y prif ganfyddiadau am ddarpariaeth sefydliadol fel a ganlyn.

1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth



Mae dulliau llywodraethu ac arweinyddiaeth y timau troseddau ieuencid yn eu cefnogi a'u hyrwyddo i ddarparu gwasanaeth personol, ymatebol ac o

Angen gwella

ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn.

Cryfderau:

- Rhwng 2017 a 2023, roedd trefniadau llywodraethu GCI Cwm Taf yn cael eu darparu gan y Bwrdd Rheoli Troseddwyd ieuencid ac oedolion ar y cyd. Yn dilyn digwyddiad ymgynghori ym mis Mawrth 2023, sefydlwyd y bwrdd rheoli cyfiawnder ieuencid, a newidiodd y gwasanaeth i GCI.
- Mae llawer o gynrychiolwyr y Bwrdd yn parhau i fynychu'r bwrdd rheoli ieuencid-benodol, gan sicrhau parhad. Mae'r bwrdd wedi adolygu ei gylch gorchwyl yn ddiweddar ac mae'n ceisio ehangu ei aelodaeth i adlewyrchu'r nifer cynyddol o blant sy'n cael eu cefnogi gan y gwasanaeth ar sail ataliol.
- Mae aelodau'r Bwrdd yn awyddus i wella trefniadau llywodraethu'r GCI. Maen nhw'n ymddangos yn fyfyrion ac yn cydnabod cyfleoedd i adfywio'r bwrdd a gwreiddio egwyddorion sy'n canolbwyntio ar y plentyn.
- Mae'r bwrdd yn deall gweledigaeth, strategaeth a blaenoriaethau allweddol y GCI.
- Mae trefniadau cyd-gadeirio yn sicrhau bod awdurdodau lleol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn cael eu cynrychioli. Mae'r cyd-gadeiryddion wedi ymrwmo i fynychu pob cyfarfod tra'n cyfnewid rôl y cadeirydd. Mae cadeirydd y bwrdd wedi mynd i'r afael â'r diffyg presenoldeb cyson gan bartneriaid statudol ac anstatudol, ac wedi'i uwchgyfeirio.
- Mae pennaeth gwasanaeth y GCI yn rhagweithiol o ran darparu gwybodaeth ac unrhyw faterion sy'n codi i'r bwrdd. Mae ymarferwyr a rheolwyr y GCI yn mynychu cyfarfodydd y bwrdd i gyflwyno adroddiadau ac astudiaethau achos sy'n tynnu sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud gyda phlant.
- Mae gan dîm arwain y GCI a chynrychiolwyr y bwrdd gysylltiadau da â byrddau partneriaeth lleol a rhanbarthol eraill.
- Mae'r bwrdd wedi llwyddo i uwchgyfeirio pryderon ynglŷn â bylchau yn y trefniadau partneriaeth weithredol statudol. Ar hyn o bryd mae'r GCI yn elwa o drefniadau secondio gyda'r heddlu, iechyd a'r gwasanaeth prawf. Mae'r heddlu ac iechyd yn adolygu eu hadnoddau gyda'r bwriad o ddarparu cymorth ychwanegol i'r GCI.
- Mae sesiwn gynefino strwythuredig a manwl ar gael ar gyfer aelodau newydd y bwrdd.
- Mae'r bwrdd wedi elwa o gyflwyniad a gafodd ei ddarparu gan awdurdod lleol arall, sy'n rhoi manylion am ei daith tuag at fod yn fwrdd sy'n ystyriol o drawma. Mae

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru hefyd wedi cynnal sesiwn ddatblygu i helpu'r bwrdd i'w ddatblygu.

Meysydd i'w gwella:

- Mae tîm arwain y GCI wedi bod yn llywio'r bwrdd rheoli. Rhaid i fwrdd rheoli'r GCI ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros osod, datblygu ac adolygu y weledigaeth a'r strategaeth ar gyfer y GCI.
- Nid yw trefniadau partneriaeth strategol a'r bwrdd rheoli yn ysgogi'r gwelliannau brys sydd eu hangen i gadw plant yn ddiogel rhag cam-fanteisio. Mae diffyg fframwaith cam-fanteisio a niwed y tu allan i'r teulu yn cyfrannu at ddiffyg cyd-ddealltwriaeth ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau strategol a gweithredol o ran cadw pob plentyn yn ddiogel rhag niwed.
- Mae angen i'r bartneriaeth ddeall y cysylltiadau rhwng cam-fanteisio ac absenoldebau o addysg yn llawn, gyda phwyslais penodol ar nifer y plant y GCI sydd ddim mewn addysg prif ffrwd na darpariaethau amgen amser llawn. Mae angen presenoldeb cyson ar y bwrdd gan gynrychiolwyr addysg y ddau awdurdod lleol.
- Mae angen i oruchwyliaeth a dealltwriaeth y bwrdd o blant sydd ar remand ac yn y ddalfa wella. Er gwaethaf cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n cael eu remandio a'u dedfrydu i gyfnodau byr yn y ddalfa, mae diffyg adolygu a dysgu ffurfiol mewn partneriaeth i ddatblygu'r ddarpariaeth i blant aros yn ddiogel yn y gymuned.
- Mae angen adolygu'r dull partneriaeth o gyhoeddi gorchmynion ymddygiad troseddol a'r effaith ar gyfraddau remand a chadw dan glo. Mae angen i'r bwrdd sicrhau ei fod yn derbyn cyfrifoldeb ar y cyd dros y plant hyn.
- Nid yw proffil plant y GCI a'r carfannau sy'n cael eu gorgynrychioli yn cael ei ddeall yn eang. Mae'r GCI wedi datblygu strategaeth i fynd i'r afael ag anghymesuredd, ond byddai hyn yn elwa o arweiniad strategol, i sicrhau dealltwriaeth ar y cyd o nodweddion gwarchoddedig ac anghenion amrywiaeth pob plentyn.
- Mae data perfformiad yn cael ei gyflwyno i'r bwrdd. Fodd bynnag, nid yw'n cael ei ddadansoddi na'i herio'n ddigonol. Nid yw aelodau'r Bwrdd yn darparu data o'u gwasanaethau eu hunain fel mater o drefn i hyrwyddo dadansoddiad cyfannol o themâu a thueddiadau ar draws y bartneriaeth.
- Mae angen datblygu mesurau goruchwyllo mwy cadarn i fodloni'r bwrdd bod ansawdd y gwaith sy'n cael ei wneud gan y GCI yn effeithiol. Mae'r bwrdd yn dibynnu gormod ar y GCI i'w sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddigonol. Mae hyn wedi arwain at ddiffyg cysylltiad rhwng y cyfeiriad strategol a chyflawni gweithredol. Dylai goruchwyliaeth gynnwys cymryd rôl fwy rhagweithiol wrth fonitro ansawdd arferion rheoli risg a diogelwch i sicrhau cysondeb ar draws y gwasanaeth.
- Nid yw holl staff y GCI yn gwbl ymwybodol o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y bwrdd rheoli. Mae angen datblygu'r cysylltiad rhwng holl aelodau'r bwrdd a thîm y GCI.
- Gwelodd yr arolygwyr nifer fawr o blant a rhieni neu ofalwyr a oedd yn fodlon ymgysylltu a rhannu eu profiadau o weithio gyda GCI Cwm Taf. Mae'r bwrdd yn colli cyfleoedd i ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant fel ffordd o lywio'r weledigaeth, y strategaeth a'r blaenoriaethau allweddol.

Mae angen i'r bwrdd ddatblygu cofrestr risgiau i sicrhau ei fod yn nodi, yn monitro ac yn lliniaru'r risgiau posibl.

1.2. Staff



Mae staff yn y GCI wedi'u grymuso i ddarparu gwasanaeth ymatebol, personol o ansawdd uchel i bob plentyn.

Da

Cryfderau:

- Mae'r staff yn frwdfrydig ac wedi'u cymell i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan dîm arwain y GCI ac mae ymdeimlad cryf o gefnogaeth gan gymheiriaid.
- Mae'r tîm arwain yn brofiadol, yn ymroddedig ac yn glir o ran rolau a meysydd cyfrifoldeb.
- Mae rheolwyr ac ymarferwyr yn wybodus ac yn dangos hyder wrth gefnogi asiantaethau eraill i ddeall ymddygiad drwy lens sy'n seiliedig ar drawma.
- Mae staff a rheolwyr wedi gwreiddio dulliau sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar draws pob agwedd ar eu gwasanaeth. Mae ymarferwyr yn adnabod eu plant yn dda ac maent wedi ymrwymo i ymgysylltu â rhieni neu ofalwyr i sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu cefnogi.
- Mae modd rheoli llwythi gwaith a gall staff drafod unrhyw bryderon ynglŷn â nifer neu gymhlethdod eu llwyth achosion gyda rheolwyr. Maent yn hyderus bod hyn yn arwain at addasiadau a chymorth ychwanegol. Mae llwythi gwaith yn cael eu rheoli'n weithredol ar draws timau'r GCI, gyda chyfleoedd i gydweithio a chael gafael ar arbenigedd gan hyrwyddwyr y GCI.
- Mae cyfarfodydd rheoli wythnosol, cyfarfodydd tîm misol, a diwrnodau datblygu tîm chwarterol, i sicrhau cyfathrebu a lledaenu gwybodaeth yn effeithiol.
- Mae goruchwyliaeth yn digwydd yn aml ac yn effeithiol wrth gydbwyso anghenion y gwasanaeth â lles ymarferwyr. Mae arfarniadau blynyddol yn sail i gynlluniau datblygu unigol ac asesiad cyffredinol o anghenion hyfforddi'r GCI. Mae anghenion amrywiaeth staff yn cael eu cefnogi'n dda.
- Mae gwasanaethau seicoleg addysg yn hwyluso manau myfyriol i gefnogi ymarferwyr y GCI gyda'u gwaith. Mae goruchwyliaeth glinigol ar gael i ymarferwyr sy'n cefnogi plant ar Reoli Achosion Uwch.
- Mae hyfforddiant gorfodol ac arbenigol cynhwysfawr ar gael i staff a gwirfoddolwyr. Mae nifer o ymarferwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant asesu ymddygiad rhywiol niweidiol Asesu, Ymyrryd a Symud Ymlaen 3 (AIM3). Mae'r GCI yn rhannu arbenigedd o fewn y tîm, gyda llawer o ymarferwyr yn ymgymryd â rolau 'hyrwyddwr' ac yn cefnogi pobl eraill i ddatblygu eu gwybodaeth a'u hymarfer.
- Mae dysgu parhaus yn cael ei annog, gyda chyfleoedd i ymgymryd â secondiadau, y radd gwaith cymdeithasol, y dystysgrif ymarfer effeithiol, a'r dyfarniad plentyn yn gyntaf.
- Mae'r prosesau ar gyfer recriwtio gwirfoddolwyr yn gadarn ac yn cynnwys cyfweiliadau gyda chydlynedd gwirfoddolwyr y GCI, rheolwr y tîm a phlentyn. Mae'r trefniadau cynefino yn gynhwysfawr ac yn cynnwys cyfleoedd cysgodi a hyfforddiant gorfodol ac arbenigol ychwanegol.

- Mae gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn rhan o'r gwasanaeth. Maent yn cael eu gwahodd yn rheolaidd i gyfarfodydd tîm a diwrnodau datblygu staff. Mae gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn gallu rhoi adborth gonest i'r gwasanaeth, er mwyn dylanwadu ar newid.
- Mae staff a gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn ddiogel wrth wneud eu gwaith. Mae prosesau gweithio ar eich pen eich hun yn cael eu deall, ac mae rheolwyr yn darparu goruchwyliaeth pan fydd gwaith yn cael ei gyflawni gyda'r nos ac ar benwythnosau.
- Mae rheolwyr yn cydnabod ac yn canmol arferion da mewn cyfarfodydd goruchwyllo a chyfarfodydd tîm. Mae aelodau'r tîm wedi derbyn gwobrau am eu hymroddiad i weithio gyda phlant.
- Mae hyrwyddwyr llesiant y GCI yn hyrwyddo gweithdai llesiant, yn cydlynu digwyddiadau cymdeithasol, ac yn sicrhau bod cyflawniadau staff yn cael eu cydnabod.

Meysydd i'w gwella:

- Mae anghysondeb rhwng ansawdd yr ymarfer mewn gwaith ar ôl y llys a gwaith datrysiadau y tu allan i'r llys. Dylai staff a rheolwyr weithio gyda'i gilydd i hyrwyddo cysondeb ymarfer ar draws y gwasanaeth cyfan. Rhaid i brosesau goruchwyllo a sicrhau ansawdd ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys sicrhau bod yr holl ffactorau sy'n ymwneud â chadw plentyn a phobl eraill yn ddiogel yn cael eu nodi a'u dadansoddi'n gyson.
- Nid yw effaith cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn creu dealltwriaeth gyson a chyffredin o ffactorau sy'n gysylltiedig â diogelu, diogelu cyd-destunol, a risgiau o niwed difrifol i bobl eraill.
- Mae galw cynyddol am wasanaethau ataliol, ac mae cyfradd swyddi gwag o 10 y cant yn y tîm. Mae angen monitro meysydd cyfrifoldeb staff a rheolwyr yn barhaus i sicrhau bod modd rheoli llwythi gwaith.

1.3. Partneriaethau a gwasanaethau



Mae ystod gynhwysfawr o wasanaethau o ansawdd uchel ar gael, sy'n golygu bod modd cynnig darpariaeth bersonol ac ymatebol i bob plentyn.

Angen gwella

Cryfderau:

- Yn weithredol, mae ystod partneriaethau statudol y GCI yn gweithio'n gydlynol i ddarparu gwasanaethau effeithiol i blant. Mae gan reolwyr llinell staff partneriaeth ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau, a chymhlethdodau'r garfan.
- Mae gwaith dioddefwyr yn gryfder cyson a gwelsom fod pob dioddefwr yn cael cynnig cymorth. Mae'r asesiadau iechyd a diogelwch dioddefwyr yn sail i brosesau rheoli risg a diogelwch y GCI, ac mae gwybodaeth briodol yn cael ei rhannu â'r heddlu i liniaru yn erbyn erlid parhaus. Mae cymryd rhan yn cael ei arwain gan y dioddefwr ac mae'n cael ei bersonol i'w anghenion a'i ddymuniadau.
- Mae gan y GCI ddau swyddog heddlu llawn amser ar secondiad. Mae'r swyddogion heddlu a'u rhingyll yn dangos dealltwriaeth gadarn o ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n seiliedig ar drawma. Mae cysylltiadau gweithredol cryf gyda'r heddlu wedi arwain at ddatblygu canlyniadau 21 a 22.
- Mae swyddogion heddlu'r GCI yn cynnal sesiynau addysgol gyda phlant, yn darparu gwasanaethau a gweithdai ataliol mewn ysgolion, ac wedi datblygu perthynas gadarnhaol â darparwyr gofal i hyrwyddo dulliau adferol o leihau'r broses o droseddoli plant sydd â phrofiad o ofal.
- Mae gweithwyr addysg y GCI yn dangos dealltwriaeth o effaith absenoldebau a gwaharddiadau o'r ysgol ar fregusrwydd a niwed y tu allan i'r teulu. Maent yn cefnogi ysgolion i ymgymryd â chynlluniau risg ac ymddygiad, ac maent yn hwyluso gweithdai addysg i blant sydd ddim yn yr ysgol. Maent hefyd yn cysylltu â'r paneli addysg amrywiol ar draws RhCT a Merthyr Tudful, ac maent wedi darparu hyfforddiant sy'n seiliedig ar drawma o fewn y bartneriaeth. Mae Gyrfa Cymru yn cefnogi'r GCI gyda darpariaethau ôl-16 ar gyfer plant sydd ddim mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth.
- Mae cynnig iechyd cyfannol cryf, sy'n cynnwys nyrs, dau therapydd iaith a lleferydd, tri ymarferydd camddefnyddio sylweddau, a mewnbwn gan y gwasanaeth ymgynghori fforensig ar gyfer pobl ifanc.
- Mae gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn ychwanegiad diweddar at y tîm. Mae'r GCI a'i bartneriaid yn cydnabod bod capasiti'r ddarpariaeth iechyd yn ei chael yn anodd bodloni'r galw a bod ymrwymiad i ddatblygu'r ddarpariaeth gofal iechyd.
- Mae'r swyddog prawf ar secondiad yn cefnogi trosglwyddiadau o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Mae canllaw ieuencid i oedolion GCI Cwm Taf yn darparu dull gwledol a fesul cam o gefnogi plant a phobl ifanc.
- Mae gan y gwasanaeth amrywiaeth dda o brosiectau gwneud iawn sy'n ymateb i anghenion plant a'u cymunedau. Mae'r cynnig gwneud iawn wedi'i achredu, gyda chyfleoedd i blant ennill cymwysterau ASDAN.
- Mae plant sy'n cymryd rhan yn y prosiect Right Hook yn cael eu cefnogi i ddefnyddio bocsio a chrefftau ymladd i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol a phersonol. Mae

sesiynau'n cael eu cynnal mewn cymunedau lleol a gall plant ddod yn fentoriaid. Enillodd y prosiect Wobr Arloesi Cyfiawnder Troseddol 2023.

- Mae'r GCI yn gweithio gydag asiantaethau partner i ddarparu gwaith allgymorth wedi'i dargedu i blant yn eu cymunedau.
- Mae gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi i gynnig gwasanaethau mentora i blant. Mae hyn yn cynnwys eu cefnogi gyda gweithgareddau ymarferol a gweithgareddau i ddifyrru.
- Mae'r berthynas rhwng y GCI a'r llys ieuencid yn gryf. Mae gan y llys ac asiantaethau partner barch mawr tuag at swyddog y llys.

Meysydd i'w gwella:

- Mae'r grŵp llywio ar gam-fanteisio yn y broses o gwblhau strategaeth cam-fanteisio ranbarthol ar draws rhanbarth Cwm Taf Morgannwg. Mae hyn yn gofyn am ddatblygiad brys gan fod absenoldeb fframwaith cam-fanteisio, gan gynnwys adnodd sgrinio safonol a chyd-ddealltwriaeth o broses y Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, yn effeithio ar allu'r partneriaethau i ddiogelu plant sydd mewn perygl o niwed y tu allan i'r teulu yn effeithiol. Nid yw'r protocol rhyngwyneb rhwng GCI Cwm Taf a Gwasanaethau Plant Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful yn cael ei ddeall yn eang.
- Mae data'r sefydliad yn nodi nad yw 93 y cant o garfan y GCI mewn addysg prif ffrwd, yn cael eu haddysgu mewn darpariaethau eraill, neu yn ddarostyngedig i amserlenni rhan-amser. Nid oes dadansoddiad manwl i bennu faint o blant sydd mewn addysg sy'n diwallu eu hanghenion.
- Mae fforymau amrywiol yn trafod anghenion addysgol plant. Fodd bynnag, mae diffyg ffocws ar anghenion penodol plant y GCI. Mae'r dull strategol yn dameidiog ac nid oes brys i sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu cefnogi'n briodol. Mae'r diffyg cysylltiad rhwng trefniadau gweithredol a strategol yn cael effaith negyddol ar wasanaethau sy'n cael eu darparu i blant.
- Mae angen i'r bartneriaeth wella'r ffordd y mae'n casglu ac yn dadansoddi data, er mwyn llywio dull strategol o ddatblygu'r ymyriadau a'r gwasanaethau mwyaf effeithiol ar gyfer plant. Mae hyn yn cynnwys datblygu dealltwriaeth o anghymesuredd a gorgynrychiolaeth ymysg carfan y GCI.
- Mae angen i brosesau ar gyfer penderfynu ar addasrwydd gorchmynion ymddygiad troseddol gael eu gweithredu'n gyson ar draws awdurdodau lleol ac yn unol ag egwyddorion plentyn yn gyntaf.
- Mae staff yn gweithio mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma ond yn aml maent yn gwneud hynny ar eu pen eu hunain. Byddai datblygu dealltwriaeth o arferion sy'n ystyriol o drawma ar draws partneriaethau allweddol yn helpu i hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth o ymddygiad plentyn.

1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau



Mae gwybodaeth brydlon a pherthnasol ar gael, a chyfleusterau priodol yn eu lle i gefnogi dull gweithredu ymatebol, personol o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn.

Da

Cryfderau:

- Mae staff yn hyblyg o ran sut a phryd maent yn gweld plant, gan sicrhau bod eu hanghenion unigol yn cael eu hystyried. Os yw'r cynllun yn golygu bod angen i blentyn fynychu lleoliad arall, oherwydd yr ardal ddaearyddol fawr a mynediad cyfyngedig at drafnidiaeth gyhoeddus, bydd y GCI yn darparu cludiant.
- Mae paneli gorchmynion atgyfeirio yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb, gyda chyfleoedd ar gyfer ymgysylltu ar-lein neu hybrid os yw hyn yn diwallu anghenion plant, teuluoedd a gwirfoddolwyr.
- Mae staff a gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn ddiogel wrth wneud eu gwaith.
- Mae'r polisiâu'n gynhwysfawr, yn hygyrch ac yn cael eu hadolygu'n aml. Mae tîm arwain y GCI yn llunio cod ymarfer ar gyfer polisiâu sy'n cynnwys bwletinâu saith munud.
- Mae protocolau rhannu gwybodaeth a chytundebau lefel gwasanaeth yn helpu i sicrhau bod gwybodaeth yn llifo'n effeithiol.
- Mae gan ymarferwyr y GCI fynediad at systemau gofal cymdeithasol plant, ac mae gan bartneriaid fynediad at eu systemau eu hunain, gan sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol.
- Mae tîm arwain y GCI yn cynnwys aelodau o baneli adolygu ymarfer plant ac mae dysgu wedi helpu i ddarparu gwasanaethau a phontio i wasanaethau oedolion.
- Mae gwerthuso wedi cael effaith gadarnhaol ar ddarparu gwasanaethau. Arweiniodd y dadansoddiad o'r rhai oedd yn ymuno am y tro cyntaf at fwy o ffocws ar ddulliau adferol, dargyfeirio, a dyrannu ymarferydd penodol yn y llys. Drwy werthuso gwaith dioddefwyr y GCI yn erbyn y cod dioddefwyr, nodwyd cyfleoedd i gryfhau'r cynnig i ddioddefwyr ymhellach.

Meysydd i'w gwella:

- Mae angen mwy o gysondeb wrth sicrhau ansawdd gweithgareddau cynllunio ac asesu y tu allan i'r llys, er mwyn sicrhau diogelwch y plentyn a diogelwch pobl eraill.
- Er bod systemau'n cefnogi'r gwaith o gynhyrchu'r wybodaeth angenrheidiol, mae angen i'r GCI ddatblygu'r gwaith o ddadansoddi a chwestiynu'r data, er mwyn sicrhau ei fod yn hyderus ei fod yn ddibynadwy. Mae bylchau o ran y data sy'n cael ei ddadansoddi sy'n golygu nad oes gan y GCI ddarlun cywir o broffil holl blant y CGI.
- Dylai gwaith o adolygu polisiâu gynnwys yr ystod o anghenion amrywiaeth a nodweddion gwarchoddedig.
- Byddai polisiâu'r GCI sy'n cynnwys asiantaethau partner yn elwa o gyd-greu a lledaenu'n ehangach ar draws y partneriaethau, er mwyn sicrhau dealltwriaeth ar y cyd o'r rolau a'r cyfrifoldebau disgwylidig.

- Mae pocedi o werthuso wedi bod yn llwyddiannus o ran llywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. Fodd bynnag, mae angen i hyn ddod yn rhan annatod o ymarfer, i sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu bod yn hyderus bod ei waith yn effeithiol o ran hyrwyddo ymatal a chadw pawb yn ddiogel.

Cynnwys plant a'u rheini neu'u gofalwyr

Mae gan y GCI ymrwymiad cryf i feithrin perthynas ystyrlon â phlant a'u rheini neu ofalwyr. Mae ymarferwyr ac arbenigwyr y GCI yn cymryd amser i ddod i adnabod plant, sy'n hyrwyddo cyfranogiad cadarnhaol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y nifer uchel o blant sy'n fodlon ymgysylltu a rhannu eu barn gydag arolygwyr.

Mae'r GCI yn datblygu rôl benodol sy'n canolbwyntio ar ddulliau unigol o gasglu adborth gan y rheini sy'n cael cymorth gan y GCI. Yn flaenorol, casglwyd adborth gan blant a'u rheini neu ofalwyr gan ddefnyddio holiaduron.

Cysylltodd y GCI â'r plant a oedd ag achosion agored adeg yr arolygiad ar ein rhan er mwyn cael caniatâd ganddynt i gymryd rhan mewn arolwg testun. Fe wnaethom gyflwyno'r arolwg yn annibynnol i'r 59 o blant a roddodd ganiatâd, ac atebodd 32 ohonynt. Fe wnaethom hefyd gyfnewid â 10 o blant, tri rhiant a gofalwr. Roedd pob plentyn a rhiant neu ofalwr yn teimlo bod gan ymarferwyr y GCI y sgiliau cywir gyda nifer yn dweud eu bod yn teimlo bod gweithwyr proffesiynol yn gwrando arnynt ac nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu barnu.

Dyma a ddywedodd y plant wrthym:

"Roeddwn i ar goll, roeddwn i'n gwybod beth roeddwn i eisiau ei gael o fywyd ond nid sut i fynd o'i chwmpas hi... Mae gen i hanes hir o brofiadau gwael gydag unrhyw fath o gynrychiolydd o'r system a'r bobl yn y GCI a'r gwasanaethau cymdeithasol oedd y bobl gyntaf yn y math yna o sefyllfa i fy nhrin i fel person, nid ystadegyn nid troseddwr, nid rhywun drwg, ond person ac i mi dyna'r parch oedd ei angen arna i i gyrraedd pwynt lle gallwn i ymateb i beth roedden nhw'n ei gynnig, gan yn fy mhrofiad i dyma lle mae'r math yma o wasanaethau yn methu."

"Maen nhw'n meddwl sut mae pethau i mi. Maen nhw'n cymryd eu hamser i wrando ac os nad ydw i'n teimlo'n ddigon da i wneud pethau, byddan nhw'n fy helpu i fynd allan o'r tŷ ac yn dod o hyd i le iddyn nhw siarad â mi. Mae ganddyn nhw'r sgiliau iawn i weithio gyda phobl ifanc."

Cafodd effaith gadarnhaol y gweithgaredd bocsio a chrefftau ymladd Right Hook ei nodi gan blant, a oedd yn dweud ei fod wedi helpu i newid patrymau meddwl ac ymddygiad. Dywedodd nifer o blant a rheini neu ofalwyr fod y GCI wedi bod yn allweddol o ran cael gwared ar rwystrau rhag cael mynediad at addysg, CAMHS, therapi iaith a lleferydd, a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Dywedodd un:

"Maen nhw wedi fy helpu i yn yr ysgol ac wedi fy helpu i gael help ar gyfer cyffuriau. Maen nhw wedi trefnu i weithiwr cyffuriau ddod i fy ngweld i. Maen nhw wedi fy helpu mewn rhannau o fy mywyd yr oedd angen help arna i gyda nhw. Roeddwn i'n arfer deffro yn y boreau'n flin iawn ac maen nhw wedi siarad â mi am yr hyn y galla i ei wneud i helpu gyda hynny, ac erbyn hyn rydw i'n llawer gwell ac yn rheoli fy hun."

Mae bwrdd rheoli'r GCI yn clywed astudiaethau achos sy'n rhoi manylion profiadau plant sy'n cael eu cefnogi gan y GCI. Mae'r lefelau uchel o ymgysylltu ag arolygwyr yn awgrymu bod cyfle amlwg i gynnwys plant a'u rheini neu ofalwyr yn y gwaith o ddatblygu gweledigaeth a strategaeth y GCI, ac wrth ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Amrywiaeth

- Mae polisiau ac arferion GCI Cwm Taf yn ymgorffori egwyddorion Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid Cymru. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cefnogaeth ataliol gynhwysfawr, gan ganolbwyntio ar dulliau sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf.
- Yn unol â'r Glasbrint, mae arferion sy'n ystyriol o drawma wedi cael eu gwreiddio. Mae'r GCI yn cyfeirio'n rheolaidd at FACS, i gael mynediad at ECM ar gyfer plant sydd wedi profi trawma helaeth. Mae ECM yn seiliedig ar y model adfer ar ôl trawma ac mae'n gofyn am dull amlasiantaethol o lunio dealltwriaeth o brofiadau bywyd plentyn. Mae asesiadau a mewnbwn seicolegol yn cefnogi'r GCI ac asiantaethau partner i benderfynu sut mae trawma wedi effeithio ar ddatblygiad gwybyddol, cymdeithasol, emosiynol a chorfforol y plentyn. Mae'r rhyngweithiadau a'r ymyriadau'n cael eu teilwra i ddiwallu anghenion datblygu unigol. Gwelodd yr arolygwyr enghreifftiau trawiadol o'r GCI yn defnyddio dulliau seiliedig ar berthynas i ymgysylltu â phlant a'u rhieni neu ofalwyr.
- Mae'r GCI wedi nodi gorgynrychiolaeth o blant sy'n derbyn gofal ac mae wedi bod yn ymatebol o ran cyflwyno gwybodaeth i'r bwrdd rhianta corfforaethol. Mae'n cefnogi darparwyr gofal gyda hyfforddiant a mewnbwn i annog dulliau adferol a lleihau troseddoli plant sydd â phrofiad o ofal yn ddiangen.
- Mae plant sydd ddim mewn addysg prif ffrwd ac ar amserlenni rhan amser yn cael eu gorgynrychioli'n helaeth yng ngharfan y GCI ac mae angen rhoi sylw brys i sicrhau eu bod yn cael cymorth i ddiwallu eu hanghenion addysgol.
- Roedd plant o grwpiau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n gweithio gyda'r gwasanaeth yn cael eu gorgynrychioli ychydig. O ganlyniad, cwblhaodd y GCI ddadansoddiad manwl er mwyn dysgu, gan arwain at y strategaeth a'r cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth.
- Mae angen datblygu dull y partneriaethau strategol a bwrdd rheoli'r GCI o ddadansoddi data, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddeall grwpiau sy'n cael eu gorgynrychioli ar gyfer y naw nodwedd warchoddedig. Mae cysylltedd rhwng gweithgarwch gweithredol a'r dull gweithredu strategol yn gofyn am gydlyniant, i sicrhau bod anghymesuredd yn cael ei ddeall ar draws pob agwedd ar y gwasanaeth a'r bartneriaeth.
- Mae datblygu'r strategaeth plentyn yn gyntaf wedi arwain at greu grwpiau sy'n arbenigo mewn meysydd penodol, gan gynnwys anghymesuredd a gorgynrychiolaeth. Mae'r GCI yn cydnabod bod y cynllun yn ei ddyddiau cynnar a bod angen arweiniad strategol i roi'r cynlluniau gweithredu ar waith yn effeithiol.
- Mae gan y GCI nifer o ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg, ac mae pob plentyn yn gallu cael gafael ar wasanaethau yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- Gwelodd yr arolygwyr enghreifftiau unigol trawiadol o ymarferwyr yn ymateb i anghenion amrywiaeth plant. Roedd ymarferwyr wedi adnabod anghenion amrywiol plant mewn 90 y cant o achosion ar ôl y llys a 75 y cant o ddatrysiadau y tu allan i'r llys.
- Mae mewnbwn therapi iaith a lleferydd yn effeithiol, gyda thystebau gan blant, rhieni neu ofalwyr, ymarferwyr y GCI, ac asiantaethau partner yn amlinellu'r gwelliant sylweddol y mae asesiadau wedi'i wneud i'w hymgysylltiad â phlant sydd ag anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu.
- Mae angen i'r GCI sicrhau bod cynnig strwythuredig cyson ar gael i ferched, o ran adnoddau, darpariaethau a dulliau gweithredu penodol.

- Mae polisiâu'n ymdrin ag amrywiaeth ac anghymesuredd ond byddai'n elwa o fod yn benodol i ddemograffeg GCI Cwm Taf.
- O'r 28 aelod o staff a saith gwirfoddolwr a nododd angen amrywiaeth yn arolwg Arolygiaeth Prawf EM, dywedodd pob un fod eu hanghenion amrywiaeth wedi cael ymateb 'da iawn' neu 'eithaf da'.

Parth dau: Datrysiadau yn y llys

Edrychwyd yn fanwl ar naw dedfryd gymunedol ac un ddedfryd o garchar a reolir gan y GCI.

2.1. Aseiad



Mae'r aseiad yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ei ofalwyr.

Da

Mae ein sgôr² ar gyfer asesu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'Ydy'
A yw'r aseiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn?	90%
A yw'r aseiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?	70%
A yw'r aseiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?	80%

Nododd yr arolygwyr lefel uchel o angen a gwendidau cymhleth ymysg y plant, ac roedd ymarferwyr y GCI yn deall hyn. Roedd tri o'r 10 plentyn wedi derbyn gofal rywbryd yn ystod eu dedfryd ac roedd troseddau gyda chyllyll yn nodwedd mewn chwech o'r 10 achos a arolygwyd.

Defnyddiodd ymarferwyr amrywiaeth o wybodaeth gan asiantaethau partner i ddeall a dadansoddi ymddygiad, agweddau a chymhelliant plant i droseddu. Roedd hyn yn cael ei gydbwyso â hyrwyddo cryfderau a ffactorau amddiffynnol. Roedd ymgysylltiad ystyrlon rhieni neu ofalwyr yn drawiadol, a chymerodd ymarferwyr amser i feithrin perthynas â'r plentyn, eu teuluoedd a'u rhwydweithiau ehangach.

Defnyddiwyd aseuadau ac adroddiadau arbenigol i wella dealltwriaeth y GCI o amrywiaeth, gan gynnwys arddull ymlyniad plentyn; anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu; ac anghenion dysgu ychwanegol. Roedd ymarferwyr y GCI yn hyderus wrth hwyluso sgysiau ynglŷn â hunaniaeth, profiadau bywyd, rhywedd, ethnigrwydd a threftadaeth plentyn.

Wrth asesu gweithgarwch i gadw'r plentyn yn ddiogel, roedd yr ymarferwyr wedi dadansoddi gwybodaeth gan asiantaethau eraill, a defnyddiwyd hyn i gydbwyso effaith trawma yn ystod plentyndod cynnar â phryderon cyfredol am ddiogelwch corfforol, seicolegol ac emosiynol y plentyn.

Cafodd y gwaith o asesu gweithgarwch i gadw pobl eraill yn ddiogel ei wella gan Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd. Daeth arolygwyr o hyd i sawl enghraifft o lefelau risg yn cael eu cyfiawnhau'n dda gan gyfeirio at effaith, tebygolrwydd, ac amlygrwydd y niwed. Byddai defnyddio'r dull hwn yn gyson ym mhob achos yn gwella ansawdd y gweithgarwch asesu.

² Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. [Mae esboniad manylach ar gael yn yr atodiad data.](#)

2.2. Cynllunio



Mae'r gwaith cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth, yn holistaidd ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ei ofalwyr.

Rhagorol

Mae ein sgôr³ ar gyfer cynllunio yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'Ydy'
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?	100%
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?	100%
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	80%

Roedd cynllunio ar gyfer anghenion ymatal y plentyn, ei ddiogelwch a'i les, a diogelwch pobl eraill yn drawiadol. Roedd dulliau sy'n seiliedig ar drawma yn rhan annatod o'r ymarfer, ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y dull o gynllunio gweithgareddau.

Roedd y cynllunio'n canolbwyntio ar anghenion amrywiaeth y plentyn ym mhob achos ac roedd ffocws cryf ar ystyried cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn. Cafodd y dulliau asesu seiliedig ar gryfderau eu symud ymlaen i'r broses gynllunio, gyda phlant yn cael eu hannog i nodi nodau a dyheadau cadarnhaol i gefnogi ymatal yn y dyfodol.

Nodwyd ymyriadau ac atgyfeiriadau priodol i leihau risgiau a phryderon. Er enghraifft, os oedd plant yn profi anawsterau cyffuriau a/neu alcohol, datblygwyd atgyfeiriadau camddefnyddio sylweddau a chynlluniau lleihau niwed. Roedd y cynllunio'n ystyried anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu plant, ADY, ac arddulliau ymlyniad. Gwelsom gynllunio sensitif o ran cyflwyno newid i fywyd plentyn, gan gynnwys cynnwys gweithwyr proffesiynol newydd yn raddol a dull wedi'i deilwra ar gyfer pontio i wasanaethau oedolion.

Gwelodd yr arolygwyr gysondeb rhwng cynlluniau'r GCI ac asiantaethau eraill, gydag enghreifftiau o gynllunio effeithiol gyda'r heddlu, ieuchyd, addysg a gwasanaethau plant. Mae cyfarfodydd ffurfio ECM amlasiantaethol, MAPPA a chyfarfodydd Prevent wedi gwella gweithgareddau cynllunio ac wedi sicrhau dull cytbwys o gadw pawb yn ddiogel.

Roedd y cynllunio wrth gefn yn unigol ac yn benodol i amgylchiadau plentyn. Cafodd ffactorau sy'n gysylltiedig â chynnydd a gostyngiadau posibl mewn pryderon eu nodi a'u defnyddio i lywio cynllun gweithredu clir a oedd yn nodi tasgau ac amserlenni penodol. Gwelsom enghreifftiau o gynllunio a chynllunio wrth gefn a oedd yn galluogi plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau dargyfeirio a theithiau addysgol.

Cynllunio i gadw pobl eraill yn ddiogel gan ganolbwyntio ar ddymuniadau, anghenion a diogelwch y dioddefwr. Gwelsom enghreifftiau o gynllunio cyfannol rhwng gweithiwr y dioddefwr, y GCI a'r heddlu gan arwain at gymorth wedi'i deilwra i'r dioddefwr.

³ Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. [Mae esboniad manylach ar gael yn yr atodiad data.](#)

2.3. Gweithredu a chyflawni



Mae gwasanaethau cydlynol, personol ac o ansawdd uchel a gyda ffocws da yn cael eu darparu, gan ymgysylltu â'r plentyn a'i helpu.

Rhagorol

Mae ein sgôr⁴ ar gyfer gweithredu a chyflawni yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'Ydy'
A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol?	100%
A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?	100%
A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?	100%

Roedd gweithredu a darparu gwasanaethau ar ôl y llys yn gryfder. Roedd ymarferwyr yn deall amrywiaeth ac anghenion unigol plant, a gwelodd yr arolygwyr enghreifftiau trawiadol o ostyngeddurwydd diwylliannol, gan ddangos sensitifrwydd tuag at dreftadaeth, hunaniaeth a digwyddiadau crefyddol. Roedd ymyriadau a pheynnau cymorth wedi cael eu haddasu i ddiwallu amrywiaeth o anghenion niwroamrywiol. Roedd ymarferwyr yn ystyried trefn arferol wrth drefnu diwrnodau ac amseroedd apwyntiadau. Roedd lleoliadau, cynlluniau ystafelloedd a phresenoldeb pobl eraill i gyd yn cael eu hystyried wrth gyflwyno sesiynau, ac roedd hyn yn annog darparu manau diogel i blant.

Darparwyd ymyriadau amserol wedi'u teilwra gan ymarferwyr iechyd, gweithwyr addysg, a swyddogion heddlu ar secondiad. Roedd y pontio i wasanaethau prawf oedolion yn ymateb i anghenion y plentyn. Roedd y cymorth camddefnyddio sylweddau yn gryfder. Roedd swyddogion heddlu arbenigol yn darparu cefnogaeth gyda meysydd fel troseddau casineb ac ideoleg eithafol. Gwelsom fod y trefniadau rhwng ymarferwyr ac arbenigwyr yn gydlynol o ran cefnogi plant a chadw pawb yn ddiogel.

Roedd y gweithgarwch gwneud iawn yn ystyrion, gan ystyried cryfderau a meysydd diddordeb y plentyn. Roedd y plant yn gallu datblygu sgiliau ac ennill cymwysterau ASDAN. Gwelsom sawl enghraifft o blant yn cymryd rhan gadarnhaol yn y prosiect bocsiio a chreffft ymladd a ddarparwyd gan y GCI i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol a phersonol.

Roedd gwaith amlasiantaethol effeithiol yn bresennol ym mhob achos perthnasol, gyda chyfarfodydd ffurfiol a chyfathrebu parhaus drwy e-bost a dros y ffôn yn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn ymateb i newidiadau sy'n effeithio ar ddiogelwch y plentyn a diogelwch pobl eraill.

Gwelodd yr arolygwyr fod gwaith sylweddol yn cael ei wneud yn edrych ar brofiadau dioddefwyr ac effaith ymddygiad y plentyn. Roedd prosesau diogelwch dioddefwyr yn sail i weithredu rheolaethau allanol yn y rhan fwyaf o achosion. Pan roedd hyn yn gweithio'n dda, roedd asesiadau diogelwch dioddefwyr wedi cael eu rhannu â thimau plismona yn y gymdogaeth gan arwain at gymorth a monitro ychwanegol i ddiogelu dioddefwyr.

⁴ Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. [Mae esboniad manylach ar gael yn yr atodiad data.](#)

2.4. Adolygu



Mae adolygu cynnydd yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ei ofalwyr.

Da

Mae ein sgôr⁵ ar gyfer adolygu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'Ydy'
A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?	100%
A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?	80%
A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	70%

Roedd adolygu ymataliad y plentyn yn gryfder cyson, gyda phlant a rhieni neu ofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon mewn gweithgareddau adolygu. Roedd paneli gorchmynion cyfeirio yn atgyfnerthu'r llwyddiannau a'r camau cadarnhaol a wnaed gan y plentyn. Gwelodd yr arolygwyr ddefnydd priodol o brosesau diddymu cynnar, gyda phlentyn yn dychwelyd i'r llys i ddiddymu ei orchymyn cyfeirio ar sail cynnydd da. Roedd strategaethau gadael yn cael eu hystyried yn amserol, gyda phlant yn cael eu cefnogi i fynychu gweithgareddau dargyfeirio cymunedol a chyffredinol. Cynigiwyd cyfleoedd i blant a'u rhieni neu ofalwyr barhau i gael cymorth y GCI yn wirfoddol.

Pan roedd adolygu i gadw'r plentyn yn ddiogel yn gweithio'n dda, roedd yr holl asiantaethau perthnasol wedi bod yn rhan o'r broses adolygu. Roedd cyfarfodydd panel amlasiantaethol, cyfarfodydd ffurfio ECM, a fforymau statudol gofal cymdeithasol plant yn darparu manau i drafod a rheoli pryderon neu gynnydd yn y risg i ddiogelwch a lles y plentyn. Gwelsom hefyd enghraifft o'r newid o wasanaethau ieuencid i wasanaethau oedolion yn cefnogi'r gwaith o adolygu atgyfeiriad Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, gan sicrhau bod gwendidau'r plentyn yn cael eu hystyried wrth iddo gyrraedd 18 oed.

Gwelodd yr arolygwyr fod cyfranogiad amlasiantaethol wedi arwain at ddealltwriaeth gliriach o rolau a chyfrifoldebau pob asiantaeth, a bod hyn wedi cyfrannu at addasiadau ymatebol ac amserol i'r cynlluniau parhaus i gadw'r plentyn yn ddiogel.

Gellid cryfhau'r ymarfer drwy sicrhau bod ffactorau sy'n dod i'r amlwg, sy'n gysylltiedig â risgiau posibl i eraill, yn cael eu hymgorffori yn y prosesau adolygu ffurfiol. Pan roeddem yn gweld y gwaith hwn yn dda, roedd ffactorau risg a oedd yn dod i'r amlwg wedi cael eu dadansoddi'n ddigonol i lywio a chyfiawnhau newidiadau mewn dosbarthiadau risg.

⁵ Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, ac a nodir mewn print trwm yn y tabl. [Mae esboniad manylach ar gael yn yr atodiad data.](#)

Parth tri: Datrysiadau y tu allan i'r llys

Roeddem wedi edrych ar 16 achos a oedd yn cael eu rheoli gan y GCI a oedd wedi cael eu datrys y tu allan i'r llys. Roedd y rhain yn cynnwys un rhybudd amodol i bobl ifanc, dau rybudd i bobl ifanc, 11 datrysiad cymunedol a dau ddatrysiad arall. Gwnaethom gyfsweld y rheolwyr achos mewn 12 achos.

3.1. Aseiad



Mae'r aseiad yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ei ofalwyr.

Annigonol

Mae ein sgôr⁶ ar gyfer asesu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'Ydy'
A yw'r aseiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn?	63%
A yw'r aseiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?	31%
A yw'r aseiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?	38%

Er bod y GCI wedi creu aseiad ymyriadau cynnar a chanllawiau cysylltiedig, gyda'r nod o sicrhau gweithgareddau asesu o safon y tu allan i'r llys, roedd yn amlwg yn ein sampl arolygu bod angen datblygu'r ymarfer yn sylweddol. Dim ond hanner yr achosion a arolygwyd yr oedd yr aseiad yn dadansoddi ymddygiad troseddol yn ddigonol ac roedd yn cynnwys gormod o ddisgrifiadau a dim digon o ddadansoddi.

Nid oedd partneriaethau gweithredol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gasglu gwybodaeth a oedd gan asiantaethau partner. Gwelodd yr arolygwyr fylchau mewn casglu gwybodaeth a defnyddio gwybodaeth a arweiniodd at ddealltwriaeth arwynebol o'r ffactorau a wnaeth gyfrannu at droseddu'r plentyn a'r risgiau a oedd yn cael eu peri i'r plentyn ac i bobl eraill. Arweiniodd diffyg chwilfrydedd proffesiynol at golli cyfleoedd i ddeall cyd-destun ymddygiad. Er enghraifft, cafodd plentyn ei wahardd o'r ysgol ond ni chafodd yr amgylchiadau a'r rhesymau dros y gwaharddiad eu hystyried; ni chafodd y rhesymau pam fod plentyn mewn gofal eu harchwilio; ac ni chysylltwyd â CAMHS i ddeall y sbardunau ar gyfer ymddygiad hunan-niweidiol.

Nid oedd pryderon ynglŷn â cham-fanteisio bob amser yn cael eu nodi na'u gweithredu. Efallai fod diffyg adnodd sgrinio cam-fanteisio wedi cyfrannu at yr ymateb anghyson i adnabod a dadansoddi arwyddion o niwed y tu allan i'r teulu.

Gwelodd yr arolygwyr fod gweithgarwch asesu i gadw pobl eraill yn ddiogel yn dueddol o ganolbwytio ar ddiwyddiad unigol, yn hytrach nag ystyried ymddygiad cyfannol. Roedd dealltwriaeth anghyson o'r gwahaniaeth rhwng niwed a niwed difrifol yn cyfrannu at beidio â mesur risgiau nac eu rhoi mewn cyd-destun.

Yn gadarnhaol, ystyriwyd anghenion a dymuniadau dioddefwyr ym mhob achos perthnasol ac roedd gan ymarferwyr ffocws cryf ar gryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn wrth hyrwyddo ymatal.

⁶ Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. [Mae esboniad manylach ar gael yn yr atodiad data.](#)

3.2. Cynllunio



Mae'r gwaith cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr.

Annigonol

Mae ein sgôr⁷ ar gyfer cynllunio yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'Ydy'
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio ar gefnogi ymataliad y plentyn?	69%
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio ar gadw'r plentyn yn ddiogel?	44%
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	44%

Annigonoldeb wrth asesu parhad i'r broses gynllunio. Nid oedd digon o achosion yn canolbwyntio ar gadw plant a phobl eraill yn ddiogel. Nid oedd panel penderfynu'r ganolfan yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau plant nac ymarferydd y GCI a oedd wedi cwblhau'r asesiad a'r cynllun. Nid oedd y diwethaf yn rhan o'r trafodaethau a oedd yn sail i'r canlyniad datrysiadau y tu allan i'r llys, ac efallai y byddai ei gynnwys wedi rhoi cyfle i wella a chanolbwyntio gweithgareddau cynllunio ar gadw'r plentyn a phobl eraill yn ddiogel.

Roedd cynllunio i hyrwyddo ymataliad plentyn yn cael ei wella gan ganolbwyntio ar gryfderau a ffactorau amddiffynnol plant. Gwelodd yr arolygwyr fod y gwaith cynllunio'n rhoi sylw digonol i anghenion a dymuniadau dioddefwyr yn y mwyafrif helaeth o achosion, a gwelsom enghreifftiau o swyddogion heddlu ar secondiad yn hwyluso sesiynau adferol gyda phlant.

Roedd cynllunio gweithgarwch i gadw'r plentyn a phobl eraill yn ddiogel yn anghyson. Pan roedd hyn yn cael ei wneud yn dda, roedd ymarferwyr y GCI yn ymwneud â chynllunio ar y cyd ag ysgolion a gweithwyr cymdeithasol, gyda chyswllt rheolaidd a chynllunio integredig. Gwelsom golli cyfleoedd i gydweithio ag asiantaethau eraill, a nifer o enghreifftiau a fyddai wedi elwa o atgyfeiriadau i baneli amlasiantaethol y GCI. Roedd hyn yn cynnwys plant â lluo o anghenion gan gynnwys cyfnodau ar goll o'u cartref, defnydd ar-lein sy'n peri pryder, cysylltiad ag oedolion sydd o blaid troseddu ac ymddygiad hunan-niweidiol.

Roedd diffyg cynlluniau wrth gefn yn cyfyngu ar allu ymarferwyr ac asiantaethau partner i ymateb i amgylchiadau sy'n newid. Gellid bod wedi gwella'r gwaith cynllunio wrth gefn i fynd i'r afael â phryderon cynyddol am ddiogelwch plentyn a phobl eraill drwy sicrhau nad oedd cynlluniau rhai generig ond eu bod yn ymateb i sefyllfaoedd plant unigol. Roedd angen i'r camau gweithredu fod yn benodol, yn gaeth i amser, a chael eu rhannu â'r ystod o weithwyr proffesiynol sy'n cefnogi'r plentyn.

⁷ Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. [Mae esboniad manylach ar gael yn yr atodiad data.](#)

3.3. Gweithredu a chyflawni



Mae gwasanaethau cydlynol, personol ac o ansawdd uchel a gyda ffocws da yn cael eu darparu, gan ymgysylltu â'r plentyn a'i helpu.

Da

Mae ein sgôr⁸ ar gyfer gweithredu a chyflawni yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'Ydy'
A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol?	75%
A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?	69%
A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?	81%

Roedd yr ymarferwyr yn canolbwyntio ar feithrin perthynas gadarnhaol gyda'r plentyn a'i riant neu ofalwr. Gwelodd yr arolygwyr ymdrechion dygn gan ymarferwyr y GCI i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal plant rhag mynychu ac ymgysylltu ag addysg. Pan roedd hyn yn gweithio'n dda, gwelsom enghreifftiau o ymarferwyr y GCI a'r gweithwyr addysg yn mynd ar drywydd absenoldebau o'r ysgol, yn cefnogi cynlluniau diogelwch, ac yn uwchgyfeirio materion unigol sy'n peri pryder.

Roedd gwaith gyda dioddefwyr, ymyriadau adferol a gwneud iawn yn rhoi cyfleoedd i blant ddechrau trwsio niwed. Roedd hyn yn gweithio'n arbennig o dda pan roedd yr ymyriadau hyn yn cael eu teilwra i ddiwallu arddulliau dysgu ac anghenion unigol y plentyn. Gwelsom sensitifwydd yn y dulliau a ddefnyddiwyd i ddarparu ymyriadau i blant a oedd yn arddangos anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Roedd diogelwch plant a diogelwch pobl eraill yn cael ei wella gan waith amlasiantaethol. Gwelsom enghreifftiau o gyfathrebu a chydweithio effeithiol rhwng y GCI, gweithwyr cymdeithasol plant, addysg, staff gofal iechyd a'r heddlu, a phan roedd hyn yn digwydd, roedd yn arwain at gamau cadarnhaol i gefnogi'r plentyn a chadw pawb yn ddiogel. Fodd bynnag, roedd hyn yn anghyson, a gwelodd yr arolygwyr enghreifftiau pan nad oedd dangosyddion cam-fanteisio a oedd yn dod i'r amlwg wedi cael eu nodi a'u harchwilio. Mewn achosion eraill, nid oedd atgyfeiriadau i ofal cymdeithasol plant wedi cyrraedd y trothwy ar gyfer cymryd rhan ac ni chafodd hyn ei herio na'i uwchgyfeirio at dîm arwain y GCI. Byddai datblygu dealltwriaeth mewn partneriaeth o gam-fanteisio a niwed y tu allan i'r teulu yn cefnogi dull cyson o gadw plant yn ddiogel.

⁸ Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. [Mae esboniad manylach ar gael yn yr atodiad data.](#)

3.4. Polisi a darpariaeth ar gyfer delio ag achosion y tu allan i'r llys



Mae gwasanaeth datrysiadau y tu allan i'r llys o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac mae'n hyrwyddo amrywiaeth ac yn cefnogi ymataliad cynaliadwy.

Angen gwella

Fe wnaethom hefyd edrych ar ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweiliadau. Roedd ein prif ganfyddiadau fel a ganlyn.

Cryfderau:

- Roedd y dogfennau polisi a chanllawiau yn darparu fframwaith manwl i gefnogi ac arwain arferion datrysiadau y tu allan i'r llys.
- Roedd paneli penderfynu'r ganolfan yn cynnwys rheolwr y GCI, swyddogion heddlu ar secondiad, rhingyll heddlu, gweithiwr dioddefwyr, a chynrychiolydd cymunedol. Yn dilyn gwerthusiad o anghenion plant, cafodd cynrychiolaeth y panel ei hymestyn i gynnwys cynrychiolydd addysg a'r hyrwyddwr ADY. Roedd y GCI wedi cael cymorth gan seicolegydd addysg i ystyried gallu plant i gymryd rhan.
- Roedd y cynnig i ddioddefwyr yn gyfannol. Cysylltwyd â'r holl ddioddefwyr i gael eu barn am y broses datrysiadau y tu allan i'r llys a chynigiwyd cyfleoedd iddynt gymryd rhan yn yr asesiad iechyd a diogelwch dioddefwyr. Roedd dymuniadau a diogelwch y dioddefwr yn cael eu hystyried ym mhob proses y tu allan i'r llys.
- Roedd gan y GCI gynnig ataliol cryf i blant a theuluoedd, gan hyrwyddo cefnogaeth ac ymgysylltu cynnar i osgoi uwchgyfeirio i'r system gyfiawnder. Gwnaed penderfyniadau ynglŷn â'r cynnig atal drwy banel atal penodol, a oedd yn cynnwys staff y GCI, ac a oedd yn cael ei lywio gan yr heddlu, addysg ac iechyd.
- Roedd mynediad at wasanaethau yn deg. Roedd y plant a oedd yn destun datrysiadau y tu allan i'r llys yn gallu cael gafael ar yr un ymyriadau a gwasanaethau â'r rheini a oedd yn destun gorchmynion ar ôl y llys. Cyflwynwyd ymyriadau gan ddefnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n seiliedig ar drawma. Roedd y plant yn cael cymorth i gymryd rhan mewn gweithgareddau dargyfeiriol ac roedd y cynlluniau gadael yn cynnwys cyfleoedd i weithio gyda'r GCI yn wirfoddol.
- Roedd datblygu llwybrau dargyfeiriol i osgoi troseddoli diangen ar blant yn gadarnhaol. Roedd y GCI wedi dadansoddi'r garfan o'r rhai oedd yn ymuno am y tro cyntaf ac wedi datblygu prosesau i liniaru yn erbyn ymddangosiadau diangen yn y llys. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno'r rhaglen 'Drive to Change' ar gyfer troseddau moduro, defnyddio dulliau adferol, a chefnogaeth addysgol wirfoddol i blant sydd ddim yn cyrraedd y trothwy ar gyfer panel y ganolfan.
- Roedd gan y GCI brif weithiwr cymdeithasol yn y llys, a oedd yn cysylltu â phlant a'u rhieni neu ofalwyr, yn cysylltu â'r llys, ac yn sgrinio rhestrau llys ar gyfer materion a oedd yn gymwys ar gyfer asesiadau datrysiadau y tu allan i'r llys.
- Roedd y data a ddarparwyd i'r panel craffu amlasiantaethol rhanbarthol yn gynhwysfawr, gan hyrwyddo'r gwaith o ddadansoddi a gwerthuso'r defnydd o ddatrysiadau y tu allan i'r llys.

Meysydd i'w gwella:

- Nid oedd panel penderfynu'r ganolfan yn cynnwys cynrychiolaeth allweddol o'r gwasanaethau plant. Roedd hyn yn cael ei gydnabod ac roedd ymrwymiad i ddyrannu adnoddau.
- Roedd diffyg cysylltiad rhwng polisi y tu allan i'r llys ac ansawdd rhai agweddau ar waith achos. Roedd y canllawiau asesu ymyriadau cynnar yn gynhwysfawr ac yn nodi sut i ddadansoddi ymataliad, diogelwch y plentyn, a diogelwch pobl eraill yn ddigonol. Yn ymarferol, gwelodd yr arolygwyr ddiffygion mewn arferion y tu allan i'r llys a diffygion o ran asesu a chynllunio i gadw'r plentyn a phobl eraill yn ddiogel.
- Cafodd barn y plentyn ei chynnwys yn asesiad ysgrifenedig y GCI. Fodd bynnag, nid oedd rheolwr achos y GCI yn bresennol ar banel y ganolfan a gwnaed penderfyniadau ynglŷn â datrysiadau y tu allan i'r llys heb unrhyw un a oedd wedi cwrdd â'r plentyn yn bresennol. Nid oedd gan reolwyr achosion y GCI lawer o ddealltwriaeth o'r rhesymeg dros y canlyniad y tu allan i'r llys.
- Roedd y GCI wedi nodi nifer cynyddol o ferched ym maes datrysiadau y tu allan i'r llys, a bod angen datblygu darpariaeth benodol.
- Nid oedd plant a'u rhieni na'u gofalwyr yn ymwneud yn uniongyrchol â gwerthuso'r polisi datrysiadau y tu allan i'r llys.

4.1. Adsefydlu

4.1. Y polisi a'r ddarpariaeth adsefydlu



Ceir gwasanaeth adsefydlu o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant sy'n gadael caethiwed.

Da

Fe wnaethom edrych ar ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer gwaith ailsefydlu, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweiliadau. I ddangos y gwaith hwnnw, bu i ni arolygu pedwar achos a oedd yn cael eu rheoli gan y GCI a oedd wedi cael dedfryd o garchar. Roedd ein prif ganfyddiadau fel a ganlyn.

Cryfderau:

- Roedd polisiâu ac arferion adsefydlu yn seiliedig ar ddulliau gweithredu sy'n seiliedig ar drama ac sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf. Roedd pwysigrwydd hunaniaeth yn cael ei ddeall ac roedd y GCI yn hyrwyddo cynlluniau ac ymyriadau unigol a oedd yn ymateb i anghenion plant.
- Roedd llwybrau ar gyfer llety addas; darpariaeth gofal iechyd; ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i gyd yn rhan dda o'r polisi ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau cadarnhaol.
- Roedd paneli amlasiantaethol dan arweiniad y GCI wedi cynllunio ar gyfer rhyddhau plentyn o'r ddalfa. Yn ein harchwiliad o'r ddarpariaeth gwasanaethau ailsefydlu gwelsom brosesau effeithiol i sicrhau diogelwch y plentyn, dioddefwyr, a'r cyhoedd yn ehangach.
- Roedd cynnig mewngymorth cryf i blant yn y ddalfa. Gwelodd yr arolygwyr fod plant yn derbyn gwasanaethau ailsefydlu effeithiol, gyda digon o gynllunio a darpariaeth ar gyfer llety; addysg, hyfforddiant a chyflogaeth; a gofal iechyd. Roedd gweithgareddau adeiladol a chymorth ychwanegol yn cael eu hannog i ennyn diddordeb plant ac i lenwi eu hamser.
- Roedd cysylltiadau wedi'u sefydlu â'r sefydliad carchar lleol. Roedd hyn yn hybu cyfathrebu effeithiol a rhannu gwybodaeth i gefnogi'r plentyn a chadw pawb yn ddiogel. Mynychodd cynrychiolwyr o'r sefydliad carchar paneli amlasiantaethol y GCI a chyfarfodydd MAPPA. Mynychodd staff y GCI adolygiadau yn yr ystâd garcharu.
- Gwelodd yr arolygwyr fod anghenion dioddefwyr yn cael eu hystyried ym mhob achos. Roedd barn dioddefwyr a'u hymdeimlad o ddiogelwch yn cyfrannu at gynllunio dedfrydau ac amodau trwyddedau.
- Roedd ymarferwyr ac arbenigwyr y GCI yn cynnal lefelau uchel o gyswllt â phlant yn y ddalfa, er mwyn cynnal a datblygu eu perthynas waith. Roedd rhieni neu ofalwyr y plant yn cymryd rhan ystyrlon drwy gydol y ddedfryd, er mwyn cefnogi newid cadarnhaol yn eu hunaniaeth.
- Gwelodd yr arolygwyr ymdrechion dygn i gynnwys plant mewn addysg a hyfforddiant, gyda'r defnydd o ryddhau ar drwydded dros dro a thechnoleg yn cefnogi pecynnau addysg pwrpasol. Roedd nifer o blant yn cael eu cefnogi i ennill cymwysterau tra roeddent yn y ddalfa.

- Roedd y newid o wasanaethau ieuencid i wasanaethau oedolion yn cael ei wella gan drefniadau gweithio ar y cyd rhwng y swyddog prawf ar secondiad a'r swyddog heddlu rheoli troseddwy'r integredig.
- Roedd anghenion amrywiaeth plant yn y ddalfa yn cael eu deall a'u cefnogi. Roedd y polisi adsefydlu'n cydnabod bod taith pob plentyn yn unigryw, ac yn canolbwyntio ar ystyriaethau amrywiaeth gan gynnwys rhywedd, oedran, ethnigrwydd, ADY, statws plentyn sy'n derbyn gofal, hunaniaeth, ac effaith trawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentynod. Dywedodd y GCI y byddai'r gwaith o gynllunio adsefydlu ar gyfer y rheini a oedd wedi profi trawma yn cael ei gysoni â'r broses o ffurfio'r ECM.
- Roedd staff a oedd yn gweithio gyda phlant yn y ddalfa wedi derbyn hyfforddiant priodol ac yn teimlo'n hyderus i wneud gwaith ailsefydlu.

Meysydd i'w gwella:

- Roedd angen i fwrdd rheoli'r GCI wneud gwaith ar unwaith i gael gwell dealltwriaeth o'r garfan o blant yn y ddalfa.
- Byddai polisiau adfer ac ailsefydlu wedi elwa o adolygu ar y cyd â gwasanaethau plant, yr heddlu a'r bartneriaeth diogelwch cymunedol, i sicrhau bod gan bawb ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau.
- Ni chafodd barn plant a'u rhieni neu ofalwyr ei gasglu yn ffurfiol i lywio'r gwaith o werthuso ac adolygu'r ddarpariaeth a'r polisi ailsefydlu.

Rhagor o wybodaeth

Mae'r canlynol i'w gweld ar ein gwefan:

- [data arolygu, gan gynnwys methodoleg a ffeithiau cyd-destunol am y GCI](#)
- [rhestr termau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn.](#)